**Atodiad A**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**ADRODDIAD GWRTHWYNEBIADAU**

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL – ADDYSG A CHYMORTH I DEULUOEDD**

**RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION: CANLYNIAD YR HYSBYSIAD CYHOEDDUS YNGHYLCH Y CYNNIG I WNEUD NEWID RHEOLEIDDIEDIG I YSGOL GYNRADD COETY, FFORDD YR HEBOG, COETY, PEN-Y-BONT AR OGWR CF35 6DH DRWY EHANGU'R YSGOL O DDAU DDOSBARTH MYNEDIAD I 2.5 DOSBARTH MYNEDIAD, I DDOD I RYM O DYMOR Y GWANWYN IONAWR 2025**

## 1. Pwrpas yr adroddiad

1.1 Rhydd yr adroddiad hwn fanylion dau wrthwynebiad a ddaeth i law mewn perthynas â'r cynnig statudol i wneud newid rheoleiddiedig i ehangu Ysgol Gynradd Coety, Ffordd yr Hebog, Coety, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 6DH o fod yn ysgol 2 ddosbarth mynediad i fod yn ysgol 2.5 dosbarth mynediad.

## 2. Cefndir

2.1 Ar 18 Hydref 2022, cafwyd cymeradwyaeth y Cabinet i gychwyn proses ymgynghori statudol mewn perthynas â’r estyniad arfaethedig i Ysgol Gynradd Coety. O dan y cynnig, byddai capasiti’r ysgol yn cynyddu o 420 i 525 o leoedd ar gyfer disgyblion 4 i 11 oed, gyda meithrinfa cyfwerth ag 88 amser llawn. Nifer derbyn cyhoeddedig (PAN) yr ysgol fyddai 75.

2.2 Roedd y cynnig yn destun proses ymgynghori a gynhaliwyd rhwng 12 Rhagfyr 2022 a 25 Ionawr 2023, yn unol â’r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol, 2018. Roedd yn gyfle i ymgyngoreion rhagnodedig yn ogystal ag aelodau o’r gymuned leol ddysgu am y cynnig. Roedd y ddogfen ymgynghori’n gwahodd sylwadau a barn ar y cynnig er mwyn i Gabinet y Cyngor glywed barn pawb oedd â diddordeb fel y gellid ei hystyried cyn gwneud penderfyniadau.

2.3 Ym mis Mai 2023, cyflwynwyd crynodeb o’r safbwyntiau a’r sylwadau a dderbyniwyd ynglŷn â’r cynnig i’r Cabinet mewn adroddiad ymgynghori a chafwyd cymeradwyaeth i gyhoeddi’r adroddiad. Roedd copi o’r adroddiad ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor:

https://www.bridgend.gov.uk/my-council/consultations/closed-consultations/coety-primary-school-consultation/

2.4 Yn dilyn ystyried yr adroddiad ymgynghori, penderfynodd Cabinet y Cyngor symud ymlaen â’r cynnig a chymeradwyo cyhoeddi hysbysiad cyhoeddus statudol. Yn dilyn hynny, cyhoeddwyd hysbysiad statudol yn amlinellu’r cynigion ar 5 Mehefin 2023 am gyfnod o 28 diwrnod a gwahoddwyd gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol yn ystod y cyfnod hwn, yn unol â’r Cod Trefniadaeth Ysgolion, 2018.

## 3. Gwrthwynebiad i'r cynnig

3.1 Derbyniodd y Cyngor ddau wrthwynebiad drwy'r e-bost yn ystod y cyfnod o rybudd statudol.

3.2 **Gwrthwynebiad un**

"Hoffwn wrthwynebu ehangu ysgol Coety neu godi fy mhryderon o leiaf ynghylch sut y caiff yr ehangu ei wneud.

Mae fy mhlant yn mynychu ysgol gynradd Coety. Rydw i'n meddwl y bydd cael 2.5 o ddosbarthiadau fesul grŵp blwyddyn yn golygu y bydd yn anodd darparu ar gyfer plant sy'n cyflawni'n isel. Bydd fy mab hynaf, y mae ei allu yn is na'i oedran, yn cael trafferth i ymdopi mewn grŵp blwyddyn cymysg.

Rydw i'n meddwl y bydd y gwaith adeiladu yn achosi llawer o aflonyddwch i'r disgyblion presennol. Mae fy mhlant wrth eu bodd yn chwarae pêl-droed yn yr iard. Ble mae'r ystafelloedd dosbarth yn mynd i gael eu gosod i sicrhau y bydd y plant yn medru mwynhau eu hegwyl?

Dydw i ddim yn deall pam na chafodd yr ysgol ei hadeiladu i ddechrau ar gyfer y plant y rhagwelid y byddent yn byw yn yr ystâd. Rydw i'n teimlo na fydd ehangu'r ysgol yn ei gwneud yn ddigon mawr i ddarparu ar gyfer poblogaeth Parc Derwen sy'n cynyddu o hyd. Er fy mod yn gwerthfawrogi yn fawr ac yn defnyddio'r cae ger yr ysgol, a ellid defnyddio rhan o hwn i ddarparu mwy o le ar gyfer adeilad newydd yr ysgol ac i wneud lle ar gyfer iard newydd?

At hynny, mae'r traffig ym Mharc Derwen wrth ollwng a chodi plant o'r ysgol yn brysur iawn ac felly dim ond gwaethygu y bydd ar ôl yr ehangu. Mae diffyg lle parcio wrth yr ysgol yn creu amgylchedd peryglus iawn gan fod ceir yn tueddu i barcio hanner ar y palmant.

Rydw i'n meddwl y bydd ehangu'r ysgol yn achosi i'r amser cinio yn y neuadd ddod yn fwy prysur fyth. Yn ystod amseroedd Covid, roedd fy mhlant yn bwyta'u cinio yn gynnar (11.30a.m.) sy'n rhy gynnar yn fy marn i. Erbyn amser mynd adref roedden nhw'n llwglyd iawn.

Byddwn yn gwerthfawrogi'n fawr pe gallech ystyried fy mhryderon a disgwyliaf am ymateb"

**3.3 Ymateb yr awdurdod lleol i'r gwrthwynebiad**

Diolch i chi am eich e-bost ynghylch ehangu Ysgol Gynradd Coety. Gwelwch isod ymateb yr awdurdod lleol gyda golwg ar y pryderon a fynegwyd:

**Capasiti'r Ysgol**

Adeiladwyd Ysgol Gynradd Coety yn ystod Band A y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ac agorodd ym mis Tachwedd 2015. Defnyddiwyd y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) 16 oedd wedi eu mabwysiadu, oedd yn berthnasol bryd hynny, i gyfrifo maint y ddarpariaeth oedd yn ofynnol. Fodd bynnag, dangosodd adolygiad yn 2019 o gyfraddau cynnyrch disgyblion o ddatblygiadau tai newydd ffigur cynnyrch disgyblion uwch o gymharu â'r cyfraddau oedd wedi eu cynnwys yn y

CCA16 a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar y pryd. Mae canllawiau CCA16 wedi cael eu diweddaru ers hynny ac mae'r cyfraddau diwygiedig wedi cael eu mabwysiadu gan y Cyngor.

Mae dalgylch Ysgol Gynradd Coety wedi bod yn destun datblygiadau tai mawr (hynny yw, Parc Derwen a safleoedd Taylor Wimpey a Persimmon ym Mracla i’r gogledd-ddwyrain) ac mae angen cynyddol am gapasiti ychwanegol yn yr ysgol. Dros nifer o flynyddoedd, mae rhai disgyblion sy’n byw yn agos at Ysgol Gynradd Coety wedi methu â sicrhau lle yn yr ysgol gan nad oes digon o le ar gael.

Mae’r cynnig hwn i ehangu Ysgol Gynradd Coety yn rhan o strategaeth ehangach i gynyddu lleoedd disgyblion i wasanaethu ardal gogledd-ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr sydd wedi bod yn destun y datblygiad sylweddol hwn. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull graddol o ehangu'r ddarpariaeth gynradd.

Cynhaliwyd proses o ystyried dewisiadau i benderfynu ar faint yr ysgol. Y canlyniad oedd cynyddu’r ysgol i 2.5 dosbarth mynediad, sef 525 o leoedd disgyblion a meithrinfa gyda 75 o leoedd llawn amser a lleoedd rhan amser cyfwerth â 9 lle amser llawn.

**Dosbarthiadau cymysg**

Mae Nifer Derbyn Cyhoeddedig (PAN) o 75 yn golygu bod angen cymysgu grwpiau blwyddyn (er enghraifft, dau ddosbarth Blwyddyn 6 a dosbarth cymysg Blwyddyn 5/6). Bydd yr ystafelloedd dosbarth wedi eu dylunio'n addas ar gyfer 30 o ddisgyblion. Fodd bynnag, mater i'r ysgol benderfynu arno yw'r ffordd y trefnir dosbarthiadau. Gellwch fod yn sicr y bydd yr ysgol yn canolbwyntio ar sicrhau ei bod yn cwrdd ag anghenion unigol yr holl ddisgyblion. Mae llawer o ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr a thu hwnt sy’n cynnal dosbarthiadau cymysg yn llwyddiannus a bu hyn yn arferiad mewn ysgolion ers blynyddoedd maith.

**Gwaith adeiladu - aflonyddwch**

Bydd y tîm yn gweithio'n agos gyda'r pennaeth, y llywodraethwyr a’r staff drwy gynllunio'r rhaglen o amgylch anghenion yr ysgol i gyfyngu ar aflonyddwch yn ystod y cyfnod adeiladu. Fodd bynnag, bydd angen i’r ysgol aros ar agor yn ystod y gwaith ac mae gan yr awdurdod lleol brofiad helaeth o reoli contractau adeiladu ar safleoedd gweithredol. Bydd Iechyd a Diogelwch o’r pwys mwyaf a gosodir cyfyngiadau ar y contractwr i sicrhau y cynhelir diogelwch drwy’r amser. Bydd cyfyngiadau amser yn eu lle i gyfyngu ar symudiadau contractwyr a danfoniadau yn ystod y diwrnod ysgol.

**Lleoliad estyniad y dosbarthiadau**

Yn ystod y cam hwn o'r prosiect, mae cynllun y safle a lluniadau’r trefniant mewnol cyffredinol wedi cael eu cynhyrchu i ddangos maint y safle, er mwyn dangos bod modd cyflawni estyniad pedair ystafell ddosbarth o fewn y lle sydd ar gael. Os ceir cymeradwyaeth i symud ymlaen â’r cynllun, bydd y cam dylunio a datblygu yn cynnwys rhagor o sesiynau ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid i sicrhau bod yr estyniad yn cwrdd ag anghenion a gofynion yr ysgol a’r disgyblion. Mae’n bosibl y caiff yr estyniad 4 ystafell ddosbarth arfaethedig ei godi ar ochr ddwyreiniol adeilad presennol yr ysgol ac y bydd yr iard ychwanegol i'r dwyrain o'r estyniad. Fodd bynnag, byddai angen ymgynghori ymhellach â’r ysgol. ynghylch y lleoliad.

## Man chwarae a chae 4G

Câi’r iard bresennol ei hymestyn hyd at waelod y clawdd, gan greu 380m² ychwanegol. Bydd yr awdurdod lleol yn anelu at ddarparu cymaint o iard ychwanegol ag sydd modd. Caiff y cyrtiau chwaraeon eu peintio ar yr iard, fydd yn caniatáu chwarae gwahanol gemau (er enghraifft, pêl-fasged, pêl-rwyd a phêl-droed). Ni fydd gan y cwrt unrhyw ffensys na rhwystrau.

O ganlyniad i’r broses ymgynghori bydd yr awdurdod lleol yn edrych i mewn i ddewisiadau ar gyfer pwynt mynediad diogel i’r cae 4G, er mwyn caniatáu llwybr diogel i ddisgyblion i fannau chwarae ychwanegol. Bydd swyddogion yn gweithio gyda'r ysgol i sicrhau bod digon o le ar yr iard ac yn ymgynghori'n ffurfiol â'r staff yn y dyfodol ynglŷn â gofynion dylunio, os derbynnir cymeradwyaeth i'r cynllun hwn gan y Cabinet.

## Pryderon ynghylch traffig

Os ceir cymeradwyaeth i symud y cynllun hwn yn ei flaen, cynhelir asesiad effaith traffig llawn (TIA). Bydd yr asesiad yn nodi pa fesurau lliniaru fydd yn angenrheidiol. Caiff yr asesiad ei ystyried gan Adran Priffyrdd yr awdurdod lleol, a byddant yn sicrhau bod unrhyw welliannau a awgrymir yn cael eu datblygu fel rhan o’r broses gynllunio. Bydd y swyddogion hefyd yn gweithio gyda’r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i’r Ysgol, fydd yn hyrwyddo ffyrdd cynaliadwy o deithio yn ôl ac ymlaen i’r ysgol, drwy hyrwyddo cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a rhannu ceir.

## Arlwyo

Bydd gwasanaeth amser cinio yn wasanaeth parhaus, yn hytrach na chyfnodol, ac yn dechrau o 11:30a.m. ymlaen. Bydd gwasanaeth parhaus yn sicrhau bod pob disgybl yn cael gwasanaeth ar amser, ar system rota, a gydag amser cinio estynedig o bosibl pan gaiff Cinio Ysgol Am Ddim Cynradd Cyffredinol (UPFSM) ei gyflwyno. Er mwyn darparu ar gyfer yr UPFSM ychwanegol, bydd ar yr ysgol angen cyfnod cinio hirach. Mae'r Gwasanaethau Arlwyo wedi nodi bod potensial i wella'r gwasanaeth prydau bwyd drwy ddarparu gwasanaeth gweini annibynnol ychwanegol. Gall y gegin goginio bwydydd mewn sypiau drwy gydol y gwasanaeth parhaus i sicrhau bod y bwyd yn cynnwys y maeth a'r ansawdd gorau posibl. At hynny, bydd gwasanaeth parhaus a chylchdroi disgyblion yn cyflymu amser y gwasanaeth.

3.4 **Gwrthwynebiad dau**

Swyddfa o bell RhAG,
Tir na Nog,
21 Llanthewy Road,
Casnewydd,
NP20 4JR.

Gorffennaf 3, 2023

Annwyl XX,

**Parthed gwneud newid a reoleiddir i Ysgol Gynradd Coety, Ffordd Yr Hebog, Coety, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 6DH drwy ehangu'r ysgol o 2 ddosbarth mynediad i 2.5 dosbarth mynediad**

1. Cyfeiriwn eich sylw at ein hymateb i'r ymgynghoriad i'r cynllun hwn ar Ionawr 24, 2023, oedd yn nodi ein bod yn anghytuno gyda'r cynigion i ymestyn yr ysgol fel y mae, gan na chyflwynwyd astudiaeth lawn a thryloyw o'r holl effeithiau ar y Gymraeg ac yn benodol ar Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, Ysgol Gyfun Llangynwyd nac ar Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg y sir yn gyffredinol. Rydym yn gofyn bod ein sylwadau blaenorol yn cael eu hail-ddatgan at ddibenion y gwrthwynebiad statudol hwn.

2. Barn RhAG yw bod Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi methu ystyried yn ddigonol yr effaith negyddol y mae cynyddu niferoedd mewn addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Coety am ei gael ar gyfleoedd rhieni i ystyried dewis addysg Gymraeg i'w plant yn yr ardal ac i waith y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Yn wir, y mae gwaith datblygu Addysg Gymraeg gwych yn cael ei wneud gan swyddogion y sir ar hyn o bryd, ond ar yr un pryd bydd cynyddu capasiti addysg Cyfrwng Saesneg mewn ardal lle nad yw'r cynnig am addysg Gymraeg yn gyfartal, yn tanseilio gwaith swyddogion y sir ei hun a phawb sydd yn cyfrannu at y gwaith hwn.

3. Nid ydym wedi'n hargyhoeddi bod yr ymgynghoriad wedi cymryd i ystyriaeth sylwadau RhAG pan nodwyd:

   *Wrth ddarllen y ddogfen ymgynghori ar y newid i Ysgol Gynradd Coety, cawsom ein siomi gan nad yw ansawdd y ddogfen sy'n mesur yr effaith posibl y gallai'r cynllun hwn ei gael ar dwf addysg Gymraeg yr ardal ac yn enwedig ar ddatblygiadau Ysgol Gymraeg Bro Ogwr ac Ysgol Gyfun Llangynwyd nac ychwaith datblygiadau diweddaraf i addysg Gymraeg ardal Pencoed, yn ddigon trylwyr nac yn dangos digon o ystyriaeth i sefyllfa fregus iawn yn ardal hon o'r sir.*

*Tra bod yna astudiaeth effaith ar y Gymraeg yn cael ei gynnwys gyda'r ddogfen ymgynghori, y mae'n wan o ran ansawdd ac y mae'n dangos diffyg dealltwriaeth o'r weithred o fesur effaith ar iaith ac yn bwysicach, nid yw'n cynnig camau lliniaru o unrhyw sylwedd pan nodir effeithiau negyddol.*

4. Nid yw'r ymgynghoriad chwaith wedi ystyried yn ddigonol ein sylwad am fynd i'r afael â phroblemau capasiti, lle nodwyd: Os taw "mynd i'r afael â phroblemau capasiti yn Ysgol Gynradd Coety" yw pwrpas y cynllun hwn, oes yna ystyriaeth wedi ei roi i sut y byddai darpariaeth Gymraeg yn gallu cynorthwyo gyda hyn?" Yr ydym yn parhau i aros am ymateb i'r sylwad hwn.

5. Mae adran 3.4 y Cod Trefniadaeth Ysgolion, Llywodraeth Cymru yn nodi:

***Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg***

- *i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd.*

- *sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg. Os mai lleihau'r ddarpariaeth y bydd, nodwch pam y bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleihau.*

Nid oes unrhyw wybodaeth yn diwallu ail bwynt bwled gofyniad y cod.

Y mae'r cod hefyd yn nodi'r isod:

Pan ffydd unrhyw ysgol sy'n rhan o gynnig neu y mae cynnig yn effeithio arni yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- asesiad o effaith y cynnig ar y Gymraeg (rhaid cynnwys asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, naill ai ym mhrif ran y ddogfen ymgynghori neu fel atodiad;
- esboniad o sut mae'r cynnig yn ffurfio rhan o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/cod-trefniadaeth-ysgolion-fersiwn-diwygiedig.pdf Adran 3.4, tudalen 34 Côd Trefniadaeth Ysgolion, Llywdoraeth Cymru.

- Mae'r cod yn glir bod **rhaid** asesu'r effaith ar y Gymraeg. Erbyn hyn yng Nghymru y mae pob ysgol yn dysgu rywfaint trwy gyfrwng y Gymraeg, hyd yn oed yn ein hysgolion Saesneg. Mae'r ysgolion Cymraeg yn yr ardal hefyd yn rhan annatod o'r ymgynghoriad hwn ac felly byddwn wedi disgwyl gweld asesiad effaith cynhwysfawr yn rhan o ddogfennaeth ymgynghoriad hwn.

- Mae gofyniad ar Awdurdodau Lleol i fesur yr effaith eu hunain yn gyntaf a dangos yr effaith posibl a chynnig ffyrdd i'w lliniaru yn rhan o'r ymgynghoriad o'r cychwyn. A phan mae cynigion i liniaru yn cael eu cyflwyno mewn ymateb, disgwylir i'r rhain gael

eu hadlewyrchu yn yr adroddiad a'u hystyried ymhellach mewn fforwm megis fforwm addysg Gymraeg. Ategwn eto na chawsom fel fforwm, gynnig trafodaeth ar y cynllun hwn gyda'n gilydd.

6. Yr ydych yn cydnabod y bydd ymestyn y ddarpariaeth hon yn debygol o atynnu rhieni sydd yn byw yn agosach i'r ysgol hon. Mae hyn yn profi bod y sir yn gwbl ymwybodol o'r risg i ymestyn y ddarpariaeth hon ond ddim yn ddigon beiddgar i weithredu mesurau lliniarol sylweddol i oresgyn yr heriau hyn. A yw'r sir yn cofio: o gynyddu capasiti ysgolion Saesneg a heb gynyddu capasiti Ysgolion Cymraeg, bydd canran deilliant 2 yn cwympo?

   "Nid oes unrhyw grwpiau Cymraeg penodol y mae'r polisi debygol o effeithio arnynt yn benodol. Ar hyn o bryd, mae lleoedd yn Ysgol Gynradd Coety yn gyffredinol, yn orlawn. Felly, gyda'r cynnydd yn nifer y lleoedd sydd ar gael i ddisgyblion yn nalgylch yr ysgol, nid yw'n afresymol tybio y bydd rhieni sy'n ystyried addysg gyfrwng Cymraeg i'w plentyn yn un o ysgolion cynradd Cymraeg yr awdurdod lleol (yr agosaf yw 1.7 milltir i ffwrdd), fel dewis gwahanol i Ysgol Gynradd Coety, weld creu lleoedd ychwanegol yn yr ysgol yn gyfle i ystyried addysgu eu plentyn yn nes at adref mewn ysgol gyfrwng Saesneg. Felly, mae risg y gallai'r cynnig beri i rieni i beidio ag ystyried addysg gyfrwng Cymraeg yn y dyfodol."

7. Gofynnwn am eich cymorth felly ar fyrder i ailystyried y cynllun hwn. Rydym o'r farn y bydd y cynllun yn gwanhau cynnig addysg Gymraeg yn ardal Pencoed ac yn tanseilio gwaith y sir ei hun drwy ddatblygiadau cynllun strategol y Gymraeg mewn addysg.

   **Gwrthwynebwn y cynllun hwn.**

3.5 **Ymateb yr Awdurdod Lleol i'r gwrthwynebiad a fynegwyd**

Diolch am eich e-bost, rydym yn cydnabod eich gwrthwynebiad i'r hysbysiad statudol i ehangu Ysgol Gynradd Coety.

1. Mae'r effaith o gynyddu lleoedd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Coety wedi cael ei hystyried a chynhaliwyd Asesiad llawn a thryloyw o'r Effaith ar y Gymraeg (AEIG). Yn dilyn canlyniad y broses ymgynghori, diweddarwyd yr asesiad.

2. Roedd y cynllun hwn yn destun gwerthusiad o ddewisiadau. Gwerthuswyd y dewisiadau'n systematig i benderfynu pa ddewis oedd yr un a ffefrid. Ymgymerwyd ag ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

   Dylai pob cynnig sicrhau bod cydbwysedd y ddarpariaeth ysgol yn adlewyrchu cydbwysedd y galw.

   Barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw ei fod wedi ystyried yn ddigonol yr effaith negyddol bosibl y bydd cynyddu'r niferoedd mewn addysg gyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Coety yn ei chael ar addysg cyfrwng Cymraeg. Fel yr amlygwyd yn yr AEIG "mae'r cynnig hwn yn creu lleoedd cyfrwng Saesneg ychwanegol yn y dalgylch ac efallai na fydd rhieni disgyblion yr ardal hon a allai fod yn ystyried addysg gyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd oherwydd rhai o'r anawsterau o ran sicrhau lle i'w

plentyn yn Ysgol Gynradd Coety, oherwydd y gordanysgrifio yn yr ysgol, yn ystyried hyn mwyach. Mae hyn oherwydd bod y gobaith y byddant yn sicrhau lle yn yr ysgol yn cynyddu, gan fod bwriad i gynyddu nifer derbyn disgyblion o 60 i 75, sy'n golygu 15 lle ychwanegol ym mhob grŵp blwyddyn".

Mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i sicrhau bod cyflenwad digonol o leoedd disgyblion Cymraeg a Saesneg, yn unol â Phrosbectws Dechrau Ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2022/2023, sy'n datgan:

"Mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion cynradd (ac eithrio dosbarthiadau meithrin), ysgolion iau ac ysgolion uwchradd (gan gynnwys y chweched dosbarth), mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol i roi sylw i'r egwyddor gyffredinol fod disgyblion i gael eu haddysgu yn unol â dymuniadau eu rhieni/gofalwyr, i'r graddau y byddai hynny'n gydnaws â darparu addysg effeithlon ac osgoi gwariant cyhoeddus afresymol (A.9 Deddf Addysg 1996).

Mae'r awdurdod lleol yn cymhwyso'r un egwyddor o ddewis rhieni i geisiadau am addysg feithrin anstatudol mewn ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol".

3. Adeiladwyd yr ysgol yn ystod Band A y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ac fe'i hagorwyd ym mis Tachwedd 2015. Defnyddiwyd y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) 16 a fabwysiadwyd, oedd yn berthnasol bryd hynny, i gyfrifo maint y ddarpariaeth oedd yn ofynnol. Fodd bynnag, dangosodd adolygiad yn 2019 o gyfraddau cynnyrch disgyblion o ddatblygiadau tai newydd ffigur cynnyrch disgyblion uwch o gymharu â'r cyfraddau oedd wedi cael eu cynnwys yn CCA16 a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar y pryd. Diweddarwyd canllawiau CCA16 ers hynny ac mae'r cyfraddau diwygiedig wedi cael eu mabwysiadu gan y Cyngor.

   Mae dalgylch Ysgol Gynradd Coety wedi bod yn destun datblygiadau tai mawr (hynny yw, Parc Derwen a safleoedd Taylor Wimpey a Persimmon yng ngogledd-ddwyrain Bracla) ac mae galw sylweddol am leoedd cyfrwng Saesneg yn yr ardal hon yn gyffredinol. Dros nifer o flynyddoedd, mae rhai disgyblion sy'n byw yn agos at Ysgol Gynradd Coety wedi methu â sicrhau lle yn yr ysgol gan nad oes digon o le ar gael. Mae gor-alw sylweddol am leoedd disgyblion a dim ond chwe lle sydd ar gael yn yr ysgol (hynny yw ym Mlwyddyn 4 a 6). Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wrthod lleoedd yn y Feithrinfa a'r Dosbarth Derbyn. Mae hwn yn fater sydd wedi cael ei godi'n rheolaidd gan aelodau lleol a rhieni

   Fel y nodwyd uchod, roedd y cynllun hwn yn destun gwerthusiad o ddewisiadau i benderfynu sut y gellid darparu ar gyfer y disgyblion ychwanegol hynny. Cafodd y dewisiadau eu gwerthuso'n systematig i benderfynu ar y dewis a ffefrid, sef estyniad pedair ystafell ddosbarth. Byddai hyn yn cwrdd â'r galw am leoedd cyfrwng Saesneg o fewn y dalgylch. Hebddo, rhaid cludo disgyblion i ysgolion eraill, a all gael effaith negyddol ar gyllidebau refeniw cludiant ysgol.

   Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, 2018. Yn ystod y broses ymgynghori, adroddwyd mai dim ond un disgybl, na allai gael lle yn Ysgol Gynradd Coety, sydd wedi dewis addysg gyfrwng Cymraeg. Mae'n

bwysig bod yr awdurdod lleol yn parchu dewis rhieni yn eu dewis o ysgol ar gyfer eu plentyn/plant.

Mae effaith y cynllun hwn ar dwf addysg gyfrwng Cymraeg yn ardaloedd y Coety a Phencoed ac ar ddatblygiadau Ysgol Gymraeg (YG) Bro Ogwr yn rhan o strategaeth ehangach i gynyddu lleoedd disgyblion i wasanaethu ardal gogledd-ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr sydd wedi bod yn destun y datblygiad sylweddol hwn. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull graddol o ehangu'r ddarpariaeth gynradd:

- Mae capasiti cyfrwng Cymraeg yn cael sylw fel rhan o Fand B y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion gyda chymeradwyaeth y Cabinet wedi ei dderbyn i adleoli YG Bro Ogwr (hynny yw, ysgol gynradd gyfrwng Cymraeg â 2.5 dosbarth sy'n gwasanaethu tref Pen-y-bont ar Ogwr, ardaloedd Porth y Cymoedd a Phencoed) i safle newydd, sydd wedi ei leoli ger safle presennol yr ysgol. Mae safle'r ysgol newydd wedi'i leoli yn ardal gogledd-ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr.

- Ehangu arfaethedig Ysgol Gynradd Coety yn ysgol mynediad 2.5 dosbarth i gynyddu'r ddarpariaeth.

Defnyddio YG Bro Ogwr weddilliol fel ysgol gynradd 1 dosbarth mynediad (cyfrwng iaith i gael ei benderfynu).

Mae'r strategaeth uchod yn mynd i'r afael â'r galw tymor hwy am leoedd disgyblion yn ardal gogledd-ddwyrain sir Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r awdurdod lleol yn cynnal gwerthusiad o ddewisiadau mewn perthynas ag Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd gyda'r bwriad o ehangu'r ddarpariaeth a'i lleoli'n ganolog yn y fwrdeistref sirol.

Fel y gwyddoch, mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd yr awdurdod lleol yn nodi y bydd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg 1 dosbarth mynediad yn cael ei darparu yn ne-ddwyrain y fwrdeistref sirol.

I gydnabod yr effaith y gallai'r cynnydd hwn mewn lleoedd Saesneg ei chael ar y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg, mae'r awdurdod lleol yn cadarnhau y byddai'n ymdrechu i ail-gydbwyso'r cynnydd arfaethedig hwn yn Ysgol Gynradd Coety drwy ddarparu lleoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol mewn mannau eraill yn ystod y cyfnod o 10 mlynedd y CSGA.

4. Mae'n bwysig bod yr awdurdod lleol yn parchu dewis rhieni yn eu dewis o ysgol ar gyfer eu plentyn/plant. Os yw rhieni'n dewis addysg gyfrwng Cymraeg i'w plant mae digon o leoedd ar gael yn y Fwrdeistref Sirol.

   Mewn ymateb i'r cwestiwn "a roddwyd ystyriaeth i sut y byddai darpariaeth gyfrwng Cymraeg yn gallu cynorthwyo gyda phroblemau capasiti yn Ysgol Gynradd Coety?" – mae deddfwriaeth yng Nghymru yn darparu bod gan rieni a gofalwyr hawl i ddweud i ba ysgol yr hoffent i'w plentyn fynd; nid yw'r awdurdod lleol yn ceisio dylanwadu ar y dewis hwnnw. Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod digon o wybodaeth ar ei wefan i rieni wneud penderfyniad gwybodus ynghylch dewis lle addas i'w plentyn. Os oes ar

rieni eisiau dewis addysg gyfrwng Cymraeg mae digon o lefydd ar gael yn y fwrdeistref. Fel y dangosodd tystiolaeth yn ystod y broses ymgynghori, adroddwyd mai dim ond un disgybl, na allai gael lle yn Ysgol Gynradd Coety, sydd wedi dewis addysg gyfrwng Cymraeg.

Fel yr amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori mae Ysgol Gynradd Coety yn frwd yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant.

5. Ymgymerwyd ag ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Fel rhan o'r broses hon, gwahoddwyd RhAG i fynegi unrhyw farn a safbwyntiau.

   Mae'n amlwg bod galw mawr am leoedd ychwanegol i ddisgyblion yn ardal gogledd-ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag, mae angen ystyried goblygiadau posibl natur ieithyddol y ddarpariaeth ac mae angen penderfynu a yw'r lleoedd ychwanegol hynny yn rhai cyfrwng Saesneg ynteu Cymraeg. Mae angen ystyried y sylwadau lefel uchel canlynol o ran gwneud penderfyniadau:

   - Mae data demograffig a data o rowndiau derbyn ysgol statudol olynol (gan gynnwys trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn), yn cefnogi creu lleoedd cyfrwng Saesneg ychwanegol yng ngogledd-ddwyrain y fwrdeistref sirol. Oni bai bod yr awdurdod lleol yn fodlon ar risg sylweddol uwch y bydd angen trafnidiaeth ychwanegol yn y dyfodol i gludo disgyblion o'r ardal hon i ysgolion mewn rhannau eraill o'r fwrdeistref sirol (a fyddai'n arwain at oblygiadau refeniw i gludiant ysgol), bydd yn ofynnol sicrhau bod cyflenwad digonol o leoedd ar gyfer disgyblion cyfrwng Saesneg yn y gogledd-ddwyrain yn ogystal â chefnogaeth ar gyfer twf lleoedd cyfrwng Cymraeg. Mae hon wedi bod yn ffordd ymlaen a dderbyniwyd yn flaenorol.

   - Byddai newid Ysgol Gynradd Coety yn ysgol Gymraeg yn golygu newid polisi sylweddol i'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, byddai newid o'r fath yn golygu na fyddai digon o leoedd cyfrwng Saesneg ar gael yn yr ardal sy'n debygol o fod yn ddadleuol ac yn ddi-os byddai'n derbyn gwrthwynebiadau sylweddol a her gyfreithiol o bosibl. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i'r awdurdod lleol gyflawni newid polisi o'r fath.

   - Mae cynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Saesneg i ddisgyblion yn annhebygol o gael effaith andwyol ar gyflawni targed canrannol Canlyniad 2 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (fel y'i gosodwyd gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer yr awdurdod lleol. Mae hyn oherwydd bod y bwriad i ehangu Ysgol Gynradd Coety yn bodloni'r galw presennol am leoedd disgyblion. Nid yw'r cynnig yn creu lleoedd i annog twf. Ni waeth p'un ai i Ysgol Gynradd Coety ynteu ysgol arall ym Mhen-y-bont ar Ogwr y caiff y disgyblion hyn eu derbyn yn y pen draw, gan eu bod eisoes yn bodoli o fewn y 'system' maent eisoes yn cyfrannu at enwadur targed y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

6. Oni bai bod y ddeddfwriaeth yng Nghymru yn newid, bydd rhieni bob amser yn cael y dewis o anfon eu plant i'r ysgol agosaf sydd ar gael.

   Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd unrhyw riant sy'n ystyried addysg gyfrwng Cymraeg yn dewis anfon eu plentyn i Ysgol Gynradd Coety os caiff ei hehangu ac ni allwch gymryd yn ganiataol mai felly y bydd hi.

   Mae nifer y plant o fewn ac o'r tu allan i'r dalgylch y gwrthodwyd lle derbyn iddynt yn Ysgol Gynradd Coety ar gyfer y Feithrinfa a'r Dosbarth Derbyn rhwng 2016 a 12 Gorffennaf 2023, a gafodd gynnig lleoliad cyfrwng Cymraeg wedi eu nodi isod:

| **Meithrinfa** | **Lleoliad cyfrwng Cymraeg** |
|---|---|
| 124 | 10 |
| | |
| **Dosbarth derbyn** | **Lleoliad cyfrwng Cymraeg** |
| 35 | 1 |

   Mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu nad oes unrhyw risg y bydd hyn yn digwydd.

7. Fel rhan o'r broses statudol, cyhoeddir yn ffurfiol adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori. Bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad ymgynghori wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo, gwrthod neu gymeradwyo'r cynnig gydag addasiadau, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

   Mae'r Cabinet yn gyfrifol am wneud penderfyniadau a pholisïau mawr ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a ganddynt hwy y mae'r penderfyniad terfynol ar gynigion moderneiddio ysgolion. Ar ôl clywed yr holl ymatebion i'r dogfennau ymgynghori, penderfynwyd symud ymlaen â'r cynllun hwn.

## 4. Casgliad

4.1 Daeth y Cyngor i'r casgliad y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a safonau addysg ac yn darparu adeiladau addas a digonol sy'n cwrdd ag anghenion staff a dysgwyr yn Ysgol Gynradd Coety.

4.2 Byddai'r cynnig yn arwain at amgylcheddau addysgu a dysgu priodol fyddai'n hybu lles disgyblion ac agweddau at ddysgu. Byddai estyniad yr ysgol a'r mannau allanol yn cael eu dylunio i gwrdd ag anghenion dysgwyr a byddai'n darparu mynediad i'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol.

4.3 Byddai'r cynnig yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu digon o leoedd ysgol sy'n cwrdd ag anghenion y dysgwyr.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar gais yn y ffyrdd canlynol:

**Ffôn:** 643 643 (01656)

**E-bost**: edsu@bridgend.gov.uk

**Ar-lein:** www.bridgend.gov.uk/consultation

**Post:** Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd, Uned Gefnogi'r Gyfarwyddiaeth (EDSU), Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.

Mae fformatau eraill ar gael ar gais hefyd.

*Mae'r adroddiad hwn yn amodol ar y gweithdrefnau galw i mewn fel y'u nodir yng nghyfansoddiad y Cyngor sy'n caniatáu i benderfyniadau a wneir gan y Cabinet, ond sydd eto i'w gweithredu, gael eu hadolygu. Pe bai'r adroddiad yn cael ei alw i mewn, byddai'r holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu.*